



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
The Subordinate Legislation Committee**

**Dydd Mawrth, 13 Tachwedd 2007
Tuesday, 13 November 2007**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introduction, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest
- 4 Offerynnau na Chafodd y Cynulliad ei Wahodd i Roi Sylw Arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.2
Instruments in Respect of which the Assembly is not Invited to Pay Special Attention under Standing Order No. 15.2
- 4 Offerynnau y Cafodd y Cynulliad ei Wahodd i Dalu Sylw Arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.2
Instruments in Respect of which the Assembly is Invited to Pay Special Attention under Standing Order No. 15.2
- 6 Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007—
Trafod yr Adroddiad
NHS Redress (Wales) Measure 2007—Consideration of Report
- 7 Unrhyw Fater Arall
Any Other Business
- 7 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf
Date of the Next Meeting

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y pwyllgor. Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee.
In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Alun Davies	Llafur Labour
Andrew R.T. Davies	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Paul Davies	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Irene James	Llafur Labour
David Lloyd	Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair)
Sandy Mewies	Llafur Labour
Janet Ryder	Plaid Cymru The Party of Wales
Karen Sinclair	Llafur Labour

Swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn bresennol
Assembly Parliamentary Service officials in attendance

Gwyn Griffiths	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Joanest Jackson	Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol Assistant Legal Adviser
Olga Lewis	Dirprwy Glerc Deputy Clerk
Chris Reading	Clerc Clerk

Dechreuodd y cyfarfod am 8.14 a.m.
The meeting began at 8.14 a.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introduction, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest

[1] **David Lloyd:** Croeso i chi i gyd i gyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth. Croesawaf hefyd y swyddogion a'r cyhoedd.

David Lloyd: I welcome you all to the latest meeting of the Subordinate Legislation Committee. I also welcome officials and the public.

[2] Os bydd argyfwng, bydd y tywyswyr yn eich arwain at yr allanfa agosaf. Gellir defnyddio'r clustffonau i gael cyfieithiad ar y pryd ac i addasu lefelau'r sain, a gall y tywyswyr ddangos ichi sut maent yn gweithio os nad ydych yn gwybod eisoes. Rhaid diffodd ffonau symudol yn llwyr. Mae hynny mor berthnasol i'm cyd-Aelodau ag ydyw i aelodau'r cyhoedd. Mae cyfieithiad ar

If there is an emergency, the ushers will lead you to the nearest exit. Headsets can be used for simultaneous translation and to alter the sound levels, and the ushers can show you how to use them if you do not already know. Mobile phones must be switched off completely. That is just as relevant to my fellow Members as it is to members of the public. The interpretation from Welsh to

y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ar sianel 1 ar y clustffonau, a gellir clywed cyfraniadau yn yr iaith wreiddiol ar sianel 0. A oes unrhyw ymddiheuriadau?

English is available on channel 1 on the headphones and contributions made in the original language can be heard on channel 0. Are there any apologies?

[3] **Mr Reading:** Nac oes.

Mr Reading: No.

8.15 a.m.

Offerynnau na Chafodd y Cynulliad ei Wahodd i Roi Sylw Arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.2
Instruments in Respect of which the Assembly is not Invited to Pay Special Attention under Standing Order No. 15.2

[4] **David Lloyd:** Mae hwn yn ymwneud ag offerynnau sydd yn agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad, sef y weithdrefn negyddol. Mae Joanest wedi bod yn craffu ar y ddau o'r rhain, sef SLC59, Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007, ac SLC62, Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2007. Joanest, a oes rhywbeth i'w ychwanegu?

David Lloyd: This relates to instruments subject to annulment pursuant to a resolution of the Assembly, namely the negative procedure. Joanest has been scrutinising both of these, namely SLC59, the Maintained Schools (Partnership Agreements) (Wales) Regulations 2007, and SLC62, the Rating Lists (Valuation Date) (Wales) Order 2007. Joanest, is there anything to add?

[5] **Ms Jackson:** Nid oes dim i'w ychwanegu.

Ms Jackson: There is nothing to add.

[6] **David Lloyd:** Diolch yn fawr. A oes unrhyw sylwadau ar hynny? Gwelaf nad oes. Yr ydym yn hapus i basio'r rheiny felly.

David Lloyd: Thank you. Are there any comments on that? I see that there are not. We are therefore happy to pass those.

8.16 a.m.

Offerynnau y Cafodd y Cynulliad ei Wahodd i Dalu Sylw Arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog Rhif 15.2
Instruments in Respect of which the Assembly is Invited to Pay Special Attention under Standing Order No. 15.2

[7] **David Lloyd:** Mae hwn yn ymwneud ag offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad, sef y weithdrefn negyddol. Mae Joanest eto wedi bod yn craffu ar SLC61, the Import and Export Restrictions (Foot-and-Mouth Disease) (No.6) (Wales) Regulations 2007 Negative Procedure. A oes unrhyw beth i'w ychwanegu, Joanest?

David Lloyd: This relates to instruments subject to annulment pursuant to a resolution of the Assembly, namely the negative procedure. Again, Joanest has been scrutinising SLC61, the Import and Export Restrictions (Foot-and-Mouth Disease) (No.6) (Wales) Regulations 2007 Negative Procedure. Is there anything to add, Joanest?

[8] **Ms Jackson:** Mae'r gyfres hon i gyd wedi'i chynhyrchu yn uniaith Saesneg, ac mae'r rheoliadau hyn yr un fath.

Ms Jackson: This whole series has been produced in English only, and this instrument is no different.

[9] **David Lloyd:** Diolch. A oes unrhyw

David Lloyd: Thank you. Are there any

sylwadau ar hynny?

comments on that?

[10] **Eleanor Burnham:** Yr oeddwn yn meddwl bod disgwyl inni i ofyn am bethau yn y Gymraeg lle mae hynny'n bosibl.

Eleanor Burnham: I thought that we were supposed to ask for things in Welsh where possible.

[11] **David Lloyd:** Cymeraf fod y rheswm arferol ar waith, sef bod y rhain wedi'u gwneud mewn argyfwng a bod materion technegol i'w hystyried. Cymeraf fod y Gweinidog wedi gwneud yr un penderfyniad ag arfer ynglŷn â phriodoldeb cyfieithu yn nhermau cyfyngiadau amser.

David Lloyd: I presume that this is down to the usual reason, namely that these have been made as a matter of urgency and that there are technical issues. I take it that the Minister has made the same decision as usual about the appropriateness of translating in terms of time restrictions.

[12] **Ms Jackson:** Ie, dyna'r rhesymau. Mae'r llythyr oddi wrth Carwyn Jones i'r Llywydd wedi'i anfon gyda phapurau'r pwyllgor ac amlinellir y rhesymau yn y llythyr hwnnw.

Ms Jackson: Yes, those are the reasons. The letter from Carwyn Jones to the Presiding Officer was circulated with the committee papers and the reasons are outlined in that letter.

[13] **Sandy Mewies:** What is the timescale? Is a timescale envisaged for when they would be produced?

[14] **Ms Jackson:** We are not notified of any timescale for a proposed translation. I can only report what is in the letter, which you have had, namely that it is intended to provide a translation, but this is No. 6. They tend, at the moment, to be coming up with almost indecent haste, if you like.

[15] **Sandy Mewies:** I realise why it is happening but it would be nice to find out at some stage how long it will take.

[16] **Ms Jackson:** We will make inquiries.

[17] **Eleanor Burnham:** Efallai y dylem anfon nodyn at y Gweinidog, os ydych yn meddwl bod hynny'n addas, Gadeirydd, i ddweud ein bod ni'n sylweddoli bod cyfyngiadau amser ac i'w annog i wneud yn well y tro nesaf.

Eleanor Burnham: Perhaps we should send the Minister a note, if you think that that is appropriate, Chair, to say that we realise that there are time constraints and to encourage him to do better next time.

[18] **David Lloyd:** Efallai y dylem ddilyn y trywydd a awgrymwyd gan Joanest yn gyntaf, os yw pawb yn gytŷn, sef gwneud ymholiadau ynglŷn â phryd y gallwn ddisgwyl cyfieithiad. Gallwn wneud penderfyniad ar ysgrifennu llythyr i'r Gweinidog ar ôl inni dderbyn y wybodaeth gan Joanest. A yw pawb yn hapus gyda hynny? Gwelaf eich bod chi.

David Lloyd: Perhaps we should go down the route that Joanest suggested first, if everyone agrees, namely to make inquiries as to when we can expect a translation. Once we receive that information from Joanest, we can make a decision about writing a letter to the Minister. Is everyone happy with that? I see that you are.

8.19 a.m.

**Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru)
2007—Trafod yr Adroddiad
NHS Redress (Wales) Measure 2007—Consideration of Report**

[19] **David Lloyd:** Dyma'r prif eitem, fel yr ydym yn ei alw bob tro—ond am y tro olaf yn awr, gobeithio. Bydd Aelodau yn gwybod yr hanes ynghylch beth sydd wedi bod yn digwydd dros yr wythnosau diwethaf. Fel pwyllgor, yr ydym wedi bod yn cymryd tystiolaeth a buom yn craffu ar ein hadroddiad drafft yr wythnos diwethaf. Bydd yr adroddiad yn mynd gerbron y pwyllgor sydd yn ystyried y Mesur. Aethom drwy bethau mewn manylder yr wythnos diwethaf. Byddwch wedi darllen yr adroddiad terfynol sydd yn cynnwys y newidiadau y bu inni gytuno arnynt yr wythnos diwethaf.

David Lloyd: This is the main item, as we always call it—hopefully for the last time now. Members will know all about what has been happening over the last weeks with this. As a committee, we have been taking evidence and we scrutinised our draft report last week. The report will go before the committee that is looking into this Measure. We went through things in some detail last week. You will have read the final report that includes the changes on which we agreed last week.

8.20 a.m.

[20] A hoffai unrhyw un ddweud rhywbeth, cynnig gwelliant, neu gynnig ein bod yn cymeradwyo'r adroddiad, oherwydd dyna yr wyf yn gobeithio ei wneud?

Would anyone like to say anything, propose an amendment, or propose that we approve the report, because that is what I am hoping to do?

[21] **Eleanor Burnham:** Yr wyf yn cynnig ein bod yn cymeradwyo'r adroddiad.

Eleanor Burnham: I propose that we approve the report.

[22] **David Lloyd:** Diolch, Eleanor. A oes unrhyw un yn eilio?

David Lloyd: Thank you, Eleanor. Does anyone second that?

[23] **Paul Davies:** Yr wyf yn eilio'r cynnig.

Paul Davies: I second that motion.

[24] **David Lloyd:** Diolch yn fawr. Gwelaf fod y pwyllgor yn cytuno.

David Lloyd: Thank you. I see that the committee is in agreement.

[25] Er gwybodaeth, yn syth ar ôl ein cyfarfod yr wythnos diwethaf, euthum i gyfarfod y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG, ac atebais gwestiynau am ein hadroddiad drafft. Mae'r pwyllgor hwnnw yn ymwybodol o'r holl drafodaethau a gawsom yn y pwyllgor hwn, ynghyd â thrafodaethau'r Pwyllgor Cyllid. Yn naturiol, bydd yr adroddiad hwn yn mynd gerbron pwyllgor y Mesur er mwyn iddo fod yn rhan o'i drafodaethau.

For your information, I went straight from our meeting last week to the meeting of the Proposed NHS Redress (Wales) Measure Committee, where I answered questions on our draft report. That committee is aware of all the discussions that we have had in this committee and the discussions of the Finance Committee. Naturally, this report will go before the Measure committee so that it can form a part of its discussions.

[26] Yr wyf hefyd yn diolch i'r I also thank officials for all their work over swyddogion am eu holl waith dros yr the past few weeks. wythnosau diwethaf.

8.21 a.m.

Unrhyw Fater Arall
Any Other Business

[27] **David Lloyd:** A oes unrhyw fater **David Lloyd:** Is there any other business? I arall? Gwelaf nad oes. see that there is not.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf
Date of the Next Meeting

[28] **David Lloyd:** Cynhelir y cyfarfod **David Lloyd:** The next meeting will be held nesaf ar ddydd Mawrth, 20 Tachwedd. on Tuesday, 20 November. Thank you for Diolch am eich presenoldeb ac am eich your attendance and for your key cyfraniadau allweddol. Diolch hefyd am y contributions. Thank you also for the cyfieithu ar y pryd. simultaneous translation.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.21 a.m.
The meeting ended at 8.21 a.m.